# Y PWYLLGOR MATERION EWROPEAIDD AC ALLANOL

| | |
|---|---|
| **Dyddiad:** | **31 Hydref 2002** |
| **Amser:** | **2:00pm** |
| **Lleoliad:** | **Ystafell Bwyllgora 3, Adeilad y Cynulliad Cenedlaethol** |
| **Teitl:** | **CYNRYCHIOLI CYMRU YM MRWSEL** |

## RHAGYMADRODD

1. Mae'r nodyn hwn yn rhoi'r newyddion diweddaraf ar y datblygiadau o ran y ffordd y caiff Cymru ei chynrychioli ym Mrwsel yn y dyfodol. Ceir adroddiad llafar pellach ar y newyddion diweddaraf yn y cyfarfod.

## CEFNDIR

2. Roedd y papur a gyflwynais i gyfarfod y Pwyllgor ar 10 Gorffennaf (EUR-05-02(p6)) yn nodi swyddogaethau arfaethedig swyddfa Llywodraeth y Cynulliad ym Mrwsel, ac yn cyfeirio at y broses o benderfynu ar ofynion buddiannau eraill Cymru.

## DATBLYGIADAU

3. Y datblygiad mwyaf ers mis Gorffennaf yw penderfyniad Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (WLGA) i dynnu'n ôl o Ganolfan Ewropeaidd Cymru fis Mawrth nesaf, a sefydlu ei phresenoldeb arbennig ei hun ym Mrwsel, ochr yn ochr â buddiannau Cymreig eraill, tra ar yr un pryd yn agored i gyfleoedd i weithio ar y cyd.

4. Yn dilyn penderfyniad y Gymdeithas, bu cryn drafod ar yr opsiynau i sicrhau bod buddiannau eraill yng Nghymru yn cael eu cynrychioli mewn ffordd addas, yn enwedig aelodau eraill y Ganolfan. Ymgynghorwyd ag aelodau'r Ganolfan ar yr hyn a fyddai orau ganddynt mewn perthynas â dau opsiwn posib - swyddfa ffederal lle y byddai aelodau'n rhydd i gyflogi staff yn safle Brwsel, neu gorff partneriaeth o grwp bach o aelodau allweddol, a fyddai'n cynnig gwasanaethau i gyrff eraill ar sail Cytundebau Lefel Gwasanaeth. Bydd Cyfarfod o Fwrdd y Ganolfan yn cael ei gynnal ar 28 Hydref er mwyn cytuno o ran egwyddor ar y ffordd ymlaen. Bydd trafodaethau manwl pellach yn dilyn gyda budd-ddeiliaid eraill, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru a Llywodraeth y Cynulliad, a'r gobaith yw y bydd Bwrdd Canolfan Ewropeaidd Cymru yn gwneud penderfyniad terfynol ar 11 Rhagfyr.

5. Fel y nodais yn fy mhapur ar gyfer cyfarfod mis Gorffennaf, rwyf wedi cynnal trafodaethau â nifer o Gyrff Cyhoeddus a Noddir gan y Cynulliad ynghylch eu gofynion. Rwyf wedi pwysleisio mai mater

iddynt hwy yw'r ffordd y maent yn cael eu cynrychioli ym Mrwsel. Caf ar ddeall y byddai gan rai ohonynt ddiddordeb mewn cymryd rhan, ym mha drefn bynnag a sefydlir, y tu allan i swyddfa Llywodraeth y Cynulliad.

6. Rwyf hefyd wedi bod yn trafod anghenion y Cynulliad fel corff corfforaethol gyda'r Dirprwy Lywydd. Yng nghyfarfod diwethaf y Pwyllgor, pwysleisiodd Prif Weinidog Cymru ei ymrwymiad i ddarparu cyfleusterau a briffiadau ar gyfer holl aelodau'r Cynulliad drwy swyddfa Llywodraeth y Cynulliad ym Mrwsel. Mae Swyddfa'r Llywydd yn dal i ystyried sut y gellid diwallu anghenion y Cynulliad ac nid oes penderfyniad wedi cael ei wneud eto.

7. Byddaf yn parhau i roi gwybod am unrhyw ddatblygiadau i aelodau'r Pwyllgor.

**MICHAEL GERMAN AC**

**Y DIRPRWY BRIF WEINIDOG A'R GWEINIDOG DROS DDATBLYGU GWLEDIG A CHYMRU DRAMOR**

**HYDREF 2002**